**ADRODDIAD I'R CABINET**
**16 Chwefror, 2016**

**Aelod Cabinet:** **Y Cynghorydd Gareth Thomas**

**Pwnc:** **Polisi Cludiant Ôl-16**

**Swyddog cyswllt:** **Owen Owens**

---

## Y penderfyniad a geisir

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Polisi Cludiant Ôl-16 newydd (Atodiad 1) i'w weithredu o fis Medi 2016 ymlaen.

---

## Barn yr aelod lleol

2.1 Ddim yn fater lleol.

---

## Cyflwyniad

3.1 Nodir nad oes gofyn statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant i ddysgwyr dros 16 oed.

3.2 Cyflwynwyd y Polisi Cludiant Ôl-16 cyfredol i'w weithredu ym Medi 2011 gan ragweld y byddai'r Cyngor yn sybsideiddio tua 80% o wir gost cludiant ôl-16 gan godi 20% o gost y cludiant trwy incwm o'r Tocyn Teithio 16+.

3.3 Erbyn 2015/16 mae cludo myfyrwyr/disgyblion ôl-16 yn costio £968,000 i'r Cyngor a derbynnir £154,000 o incwm o'r tocynnau, sydd yn golygu sybsidi o 84% gan y Cyngor.

3.4 Ar gyfartaledd, mae cludo pob myfyriwr/disgybl ôl-16 yn costio £945 i'r Cyngor, a byddai newid polisi yn unol â'r penderfyniad a geisir yn golygu gofyn am gyfraniad o £300 y flwyddyn gan fyfyrwyr/disgyblion – llai na $^{1}/_{3}$ o'r gwir gost.

3.5 Bwriadwyd cyflwyno cynnig i newid y Polisi Cludiant Ôl-16 yn wreiddiol fel cyfraniad tuag at darged arbedion effeithlonrwydd yr Adran Addysg, ond penderfynwyd oedi cyflwyno unrhyw newidiadau tan ar ôl i Ymchwiliad Craffu a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau gwblhau ei waith.

3.6 Mae'r Polisi Cludiant Ôl-16 cyfredol a'i weithrediad wedi bod yn destun Ymchwiliad Craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Cyhoeddwyd Adroddiad yr Ymchwiliad Craffu ar 21 Tachwedd 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion penodol, ac y mae'r polisi newydd hwn yn cyfarch nifer o'r argymhellion rheiny lle mae angen newid polisi i'w gweithredu.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

4.1 Mae'r polisi newydd yn ymateb i'r argymhellion canlynol yn adroddiad yr ymchwiliad craffu:

- Mae angen adolygu'r dalgylchoedd i leihau amseroedd a phellteroedd teithio dysgwyr/myfyrwyr yn unol â'r Canllaw Statudol Teithio gan Ddysgwyr.
- Dylid, ar sail y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad craffu, gosod un pris i bawb.
- Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er mwyn rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb.
- Dylid sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfle cyfartal i fyfyrwyr coleg a dysgwyr ysgolion uwchradd.

4.2 Mae'r polisi newydd yn codi un pris yn unig ar bawb ac yn dileu'r cysyniad o ddalgylch (sydd yn rhan o'r polisi cyfredol).

4.3 Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth a'r trefniadau sydd ar gael i bawb, boed yn ddisgyblion ysgol neu fyfyrwyr coleg, lle bynnag bônt yn byw.

**Ystyriaethau perthnasol**

5.1 Mae dileu'r cysyniad o ddalgylch o'r polisi yn golygu y caiff myfyrwyr/disgyblion ddewis y coleg/ysgol sydd yn cynnig y cyrsiau gorau iddyn nhw o ran cwrs ac amser teithio, heb orfod ystyried gwahaniaeth mewn pris Tocyn Teithio 16+ wrth wneud eu dewis. O dan y polisi cyfredol, roedd rhai myfyrwyr o Ben Llŷn yn dymuno dilyn cwrs penodol oedd yn cael ei gynnig yng Ngholeg Meirion/Dwyfor Dolgellau ac yng Ngholeg Menai Bangor. O dan y polisi cyfredol, byddai Tocyn Teithio 16+ i Ddolgellau wedi costio £60 iddyn nhw, a Thocyn Teithio 16+ i Fangor wedi costio £100 (er bod Bangor yn nes ac yn cymryd llai o amser teithio). Roedd hynny yn aml yn achosi drwgdeimlad.

5.2 Mae'r polisi newydd yn codi pris o £100 y tymor ar bawb. (Hwn ydy'r pris i fyfyrwyr/disgyblion sydd yn dewis mynychu coleg/ysgol all-ddalgylch ar hyn o bryd.) Dylid nodi bod myfyrwyr/disgyblion o gartrefi incwm isel yn gymwys i dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) sydd yn £30 yr

wythnos. Un o ddibenion y LCA ydy cyfrannu at gostau teithio myfyrwyr/disgyblion. Ymhellach, bydd yr Adran Addysg yn cyflwyno cynllun lle gellir talu am y Tocyn Teithio 16+ trwy gyfrwng Debyd Uniongyrchol misol (£25 y mis). Bydd hyn yn hwyluso talu am docyn. Cyn dyfodiad y cynllun talu trwy Debyd Uniongyrchol roedd rhaid talu pris y tocyn yn llawn cyn ei dderbyn.

5.3 Roedd y cysyniad o ddalgylchoedd gwahanol a phrisiau gwahanol yn gwneud yr hen bolisi yn gymhleth ac yn anodd i'w ddeall. Mae'r polisi newydd yn llawer symlach.

5.4 Bwriadwyd cyflwyno cynnig i newid y Polisi Cludiant Ôl-16 yn wreiddiol fel cyfraniad tuag at darged arbedion effeithlonrwydd yr Adran Addysg, ond penderfynwyd oedi cyflwyno unrhyw newidiadau tan ar ôl i'r Ymchwiliad Craffu gwblhau ei waith. Rhagwelir y bydd y newid polisi yn gallu cyfrannu hyd at £50,000 at arbedion effeithlonrwydd yr Adran Addysg, tra ar yr un pryd cyfarch nifer o argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

5.5 Ymgynghorwyd yn eang wrth gynnal yr ymchwiliad craffu a arweiniodd at lunio'r argymhellion uchod. Cyfwelwyd y canlynol:

- Aelodau Cabinet,
- Swyddogion perthnasol y Cyngor
- Penaethiaid Ysgol Uwchradd
- Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Coleg Menai Bangor
- Rheolydd Ardal Gyrfa Cymru
- Tri Grŵp Ffocws efo dysgwyr/myfyrwyr - safle Coleg Menai Bangor, Coleg Meirion Dwyfor safle Pwllheli a safle Coleg Meirion Dolgellau
- Pobl ifanc di-waith gan ddefnyddio holiadur a chefnogaeth Swyddfa Gyrfa Porthmadog
- Casglwyd barn llais pobl ifanc, rhieni a'u teuluoedd gyda chefnogaeth Clywed
- Holiaduron ar lein – ar gyfer myfyrwyr (cwblhawyd 21holiadur ar lein) ac un arall ar gyfer teuluoedd myfyrwyr (cwblhawyd 32 holiadur ar lein)

5.6 Yn ogystal, ystyriwyd a dadansoddwyd cofnodion cwynion / sylwadau mae Galw Gwynedd yn derbyn ar ran y Gwasanaeth.

5.7 Gellir crynhoi'r prif faterion a godwyd o'r ymatebion i'r ymgynghori fel a ganlyn:

- Yr angen i roi sylw i ddiffiniad dalgylchoedd ac amseroedd teithio (dyddiau hir)
- Yr angen i gydnabod y gallu i dalu (yn enwedig ar ddechrau'r tymor)
- Yr angen am amseroedd teithio mwy hyblyg

5.8 Mae'r mater cyntaf uchod yn derbyn sylw trwy'r newid polisi hwn. Mae'r ail fater yn derbyn sylw trwy gyfrwng cyflwyno y gallu i dalu am docyn trwy ran-daliadau (Debyd Uniongyrchol). Mae'r mater olaf yn faes sydd o dan drafodaeth ar hyn o bryd. Bydd angen ail-edrych ar ein trefniant gyda darparwyr cludiant cyhoeddus masnachol.

5.9 Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 mae asesiad effaith cydraddoldeb wedi'i gynnal (gweler Atodiad 2).

5.10 Cesglir y byddai'r newid polisi hwn yn golygu cost uwch i'r mwyafrif o fyfyrwyr/disgyblion, ond y byddai'n cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd sydd ag incwm dim ond ychydig dros yr hicyn fyddai'n golygu bod eu plant yn gymwys i dderbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £30 yr wythnos. Nodir bod cartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt yn fwy tebygol o fod yn dlawd ac felly yn fwy tebygol o gael eu heffeithio. Deuir i'r casgliad na fydd y newid polisi yn arwain at gamwahaniaethu anghyfreithlon nac aflonyddu, ac nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth argymhelliad yr adroddiad hwn.

**Camau nesaf ac amserlen**

6.1 Bydd y polisi newydd yn weithredol o fis Medi 2016.

6.2 Bydd myfyrwyr/disgyblion sydd eisoes wedi prynu Tocyn Teithio 16+ am £60 o dan amodau'r polisi presennol yn gallu parhau i brynu Tocyn Teithio 16+ am £60 tra bônt yn cwblhau eu cwrs. Os bydd rhywun yn prynu Tocyn Teithio 16+ am y tro cyntaf ar gyfer Medi 2016, bydd y tocyn yn cael ei gynnig o dan amodau'r polisi newydd.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Rwy'n ymwybodol bod y newidiadau yn y polisi hwn yn dod i raddau o waith manwl a gwblhawyd gan yr Ymchwiliad Craffu i'r maes Cludiant Ôl-16. Fel y nodwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Cabinet, mae llawer eto i'w wneud i wireddu rhai o'r newidiadau a argymhellwyd erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2016/17 ond mae mabwysiadu'r polisi hwn yn gam pwysig ymlaen er mwyn gwneud hynny."

**Y Swyddog Monitro:**

"Wrth adolygu'r polisi cynhaliwyd proses ymgynghorol sydd wedi derbyn mewnbwn cyfreithiol ac adroddir yn briodol ar y canlyniadau. Noder hefyd fod yr asesiad ardrawiad cydraddoldeb wedi ei gynnwys a'i gloriannu. Mae gofynion

statudol yn ynghlwm â chyhoeddi gwybodaeth am bolisi cludiant a gwneud hynny erbyn 1af Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd y daw'r trefniadau diwygiedig i rym. Fe roddaf arweiniad pellach ar oblygiadau hyn ar lafar yn y cyfarfod."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sy'n ymddangos yn yr adroddiad yn amcangyfrifon ar sail rhagdybiaethau eithaf teg, ond gall sawl ffactor ddylanwadu ar wir lefel yr incwm gan ddisgyblion / myfyrwyr (i fyny neu i lawr). Pan y cymeradwywyd y 'Polisi Cludiant Ôl-16' cyfredol gan Fwrdd y Cyngor 25/01/2011, nodwyd byddai raid i'r Adran Addysg ymdopi gydag unrhyw ddiffyg o dan y cynllun arfaethedig (cynllun arbediad adrannol) o'i gymharu gyda'r targedau arbedion gwreiddiol. Yn 2015-16, rhagwelir diffyg £45,000 yn yr incwm, a byddai'r polisi newydd yn helpu i gwrdd â'r diffyg a'r targed incwm o £50,000 ychwanegol ar gyfer cynllun arbediad adrannol 2016/17."

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Polisi Cludiant Ôl-16 (Medi 2016)

Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Polisi Cludiant Ôl-16 (Medi 2016)